

Cobimetinib ar y cyd â vemurafenib i drin melanoma na ellir ei dynnu'n llwyr neu fetastatig sydd wedi profi'n bositif am y mwtadiad BRAF V600

26 Hydref 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Nid argymhellir i oedolion sydd â melanoma na ellir ei dynnu'n llwyr neu fetastatig sydd â'r mwtadiad BRAF V600 ddefnyddio cobimetinib (Cotellic) a vemurafenib (Zelboraf).

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Ni ddylid rhagnodi Cobimetinib gyda vemurafenib ar y GIG fel arfer ar gyfer melanoma fel y disgrifir uchod. Dylai eich meddyg siarad â chi am yr opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael i chi.

Os ydych eisoes yn cymryd cobimetinib gyda vemurafenib, dylech barhau i'w gymryd nes eich bod chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn rhoi'r gorau i'w gymryd.

Y cyflwr a'r triniaethau

Math o ganser y croen yw melanoma. Cyfeirir ato fel melanoma na ellir ei dynnu'n llwyr drwy lawdriniaeth, ac fel melanoma metastatig os bydd wedi lledaenu i rannau eraill o'r corff. Mae un math o melanoma yn achosi newid yn y celloedd o'r enw 'mwtadiad BRAF V600'. Mae hyn yn peri iddo gynhyrchu gormod o brotein BRAF, ac mae'r protein hwn yn peri i'r celloedd canser dyfu a rhannu.

Mae cobimetinib a vemurafenib yn gyffuriau sy'n gallu arafu twf y canser.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Ymchwil Canser y DU](#), 0808 800 4040
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 0000
- [Melanoma UK](#), 0808 171 2455
- [Skcin - Elusen Canser y Croen Karen Clifford](#), 0115 981 9116

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2190-4